OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1736 (Cy.166) (C.53)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud - - 4 Gorffennaf 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 20(1) a (3) o Ddeddf Digartrefedd 2002(**1**):

Enw, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Digartrefedd 2002 ("y Ddeddf") ac Atodlenni iddi.

Y diwrnodau penodedig

2.—(1) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a bennwyd yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym yng Nghymru yw 30 Medi 2002.

(2) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a bennwyd yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym yng Nghymru yw 27 Ionawr 2003.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Gorffennaf 2002

(**1**) 2002 p.7.
(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthygl 2

RHAN 1

Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 30 MEDI 2002

adran 1	(Dyletswydd ar awdurdod tai lleol i fformiwleiddio strategaeth digartrefedd)
adran 2	(Adolygiadau digartrefedd)
adran 3	(Strategaethau digartrefedd)
adran 4	(Adran 1 i 3: dehongli)
adran 5	(Darparu llety ar gyfer pobl nad yw eu hanghenion yn flaenoriaeth nad ydynt yn ddigartref o fwriad)
adran 6	(Diddymu'r isafswm cyfnod y mae awdurdod yn ddarostyngedig i brif ddyletswydd digartrefedd)
adran 7	(Digwyddiadau sy'n achosi'r prif ddyletswydd digartrefedd i ddod i ben)
adran 9	(Diddymu dyletswydd o dan adran 197)
adran 10	(Personau sy'n honni eu bod yn ddigartref sydd mewn perygl o drais)
adran 11	(Adran 204(4): apelau)
adran 12	(Cydweithredu mewn rhai achosion sy'n cynnwys plant)
adran 17	(Cymru)
adran 18	(Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau) — heblaw i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darpariaetha yn yr Atodlenni i'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o'r Atodlen hon.
adran 19	(Darpariaethau ariannol)
Atodlen 1	(Mân ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol) — heblaw am baragraffau 1 i 7 yn gynwysiedig
Yn Atodlen 2	(Diddymiadau),
Deddf Tai 1996 (p.52)	Adran 191(4) Yn adran 193, yn is-adran(1), y geiriau o “This section” i'r diwedd, ac yn is-adran (8), y geiriau “of accommodation under Part VI”. Adran 194